# Mynychu eich apwyntiad trwy fideo

## Mae galwadau fideo yn gyfleus ac yn hawdd i ddefnyddio

Yn hytrach na theithio i'ch apwyntiad, byddwch chi'n mynd i mewn i'r ardal aros ar-lein, gan ddefnyddio'r ddolen isod.

Bydd y gwasanaeth yn derbyn hysbysiad eich bod wedi cyrraedd, a bydd y darparwr yn ymuno â'ch galwad pan fyddwn nhw'n barod.

Nid oes angen creu cyfrif.

Mae galwadau fideo yn ddiogel ac mae eich preifatrwydd wedi'i ddiogelu.



## Sut allai'i gael mynediad i fy apwyntiad fideo?

Ewch i:

## Beth sydd ei angen arnaf i wneud galwad fideo?

- **Dyfais** ar gyfer gwneud fideoalwad, e.e. ffôn clyfar, tabled neu gyfrifiadur gyda camera a meicroffon (yn aml wedi'u cynnwys mewn gliniaduron).
- **Cysylltiad dibynadwy â'r rhyngrwyd** (gwifrau, WiFi neu ddata symudol). Os gallwch wylio fideo ar-lein, dylech chi allu gwneud fideoalwad.
- **Ardal breifat, wedi'i goleuo'n dda** ar gyfer eich ymgynghoriad, lle na fydd unrhyw beth yn torri ar eich traws.
- Defnyddiwch y fersiwn diweddara o **Edge**, **Safari** neu **Chrome** i gael y profiad gorau yn ystod y galwad.

**Microsoft Edge**
Windows

**Apple Safari**
iOS, iPadOS, macOS

**Google Chrome**
Android, Windows, macOS

Gweler tudalen dau am ragor o wybodaeth ar sut i wneud fideoalwad

## Beth sydd angen i mi ei wybod?

### A yw'n ddiogel ac yn gyfrinachol?

Mae ystafelloedd fideo yn breifat. Dim ond darparwr awdurdodedig all fynd i mewn i'r ystafell neu dderbyn pobl i alwad grŵp.

Nid oes unrhyw wybodaeth a roddwch yn cael ei storio.

### Faint mae galwad fideo yn ei gostio?

Mae'r alwad fideo am ddim heblaw am eich defnydd o'r rhyngrwyd.

**Awgrym!** Os gallwch chi, cysylltwch â rhwydwaith wi-fi i osgoi defnyddio eich data symudol.

### Faint o ddata rhyngrwyd y byddaf yn ei ddefnyddio?

Ar ôl i'r alwad fideo gysylltu, mae'n defnyddio swm tebyg o ddata â Zoom neu FaceTime.

## Sut allaf wneud fy ngalwad fideo?

**1.** Agorwch eich porwr gwe a theipiwch gyfeiriad gwe'r gwasanaeth yn y bar cyfeiriad (nid y blwch chwilio).

**2.** I ddechrau eich galwad, naill ai:

- cliciwch **Enter Waiting Area**

  **Enter Waiting Area**

- neu cliciwch ar y botwm **Start Video call** a dewiswch eich man aros.

  **Start video call**

**3.** Os gofynnir i chi, caniatewch i'ch porwr gael mynediad at eich camera a'ch microffon.

**4.** Dilynwch yr anogwyr ar y sgrin i ddechrau eich galwad fideo.

**5.** I ddod â'r alwad i ben, cliciwch ar y botwm **Leave**.



### Awgrymiadau!

I gael y profiad galwad gorau, rhowch eich ffôn clyfar neu dabled i sefyll ar ei ymyl hir.

Mewn galwadau grŵp, bydd eich microffon wedi'i ddistewi wrth ddod i mewn. Cadwch ef wedi'i ddistewi oni bai eich bod yn siarad.

Gallwch ddefnyddio'r botwm codi llaw ar gyfer sylw.

## Beth ddylwn i ei wneud os nad yw rhywbeth yn gweithio?

Ymweld https://nhs.attendanywhere.com/troubleshooting

### Rhagor o wybodaeth

induction
Attend Anywhere